

Crynodeb o'r trafodaethau yng nghyfarfod Bwrdd yr ASB ar 6 Rhagfyr 2017

Aeth y Bwrdd ati i ystyried diweddariad ar waith yr **Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd** dros y 12 mis diwethaf. Mae'r Uned wedi cyflawni cryn dipyn. Yn benodol, roedd y Bwrdd yn croesawu'r gostyngiad yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â DNP, y sylwedd tocsig iawn yr honnir ei fod yn 'llosgi braster', a rôl arweiniol gynyddol yr Uned yn rhyngwladol. Cytunodd y Bwrdd bod gwybodaeth (*intelligence*) a rennir gan y diwydiant yn hanfodol i wireddu potensial yr Uned, a chytunodd ar set o brotocolau ar drin a defnyddio gwybodaeth o'r fath gan Rwydwaith Gwybodaeth y Diwydiant Bwyd. Ailddatganodd y Bwrdd ei ddyhead i ddatblygu gallu ymchwilio'r Uned, yn unol ag argymhellion Elliot a Kenworthy, ond gan nodi oes modd bwrw ymlaen â hyn heb i'r Llywodraeth sicrhau bod cyllid newydd ar gael. Dywedodd y Cadeirydd, Heather Hancock, fod y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, George Eustice, wedi cynnal cyfarfod Gr?p Gweinidogol ar Droseddau Bwyd i ystyried a ddylid cefnogi'r cynnig hwn i ehangu cylch gwaith a chwmpas yr Uned. Dylai canlyniad eu hystyriaethau fod ar gael ym mis Ionawr. Pe bai cefnogaeth dros y cynnig hwn, y cam nesaf fyddai datblygu achos busnes manwl i'w gytuno â'r Trysorlys ac adrannau eraill.

Mewn ymateb i'r diweddariad ar raglen [Rheoleiddio Ein Dyfodol](#), cadarnhaodd y Bwrdd ei gefnogaeth dros gryfhau cyfraniad y cynlluniau sicrwydd preifat sydd wedi'u rheoleiddio wrth ddarparu sicrwydd o gydymffurfiaeth, gan gynnwys y cyfle i wella eu cwmpas a chanfod rhagor o ffyrdd i brofi mesurau rheoli a diwylliant mewn perthynas â diogelwch, hylendid a safonau bwyd. Penderfynodd y Bwrdd bod datblygu'r cysyniad 'Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig' ymhellach yn flaenoriaeth is ar y cam hwn. Dylid ailymweld â'r cysyniad unwaith y mae rhagor o dystiolaeth o ran ble allai bylchau mewn sgiliau arbenigol barhau yn y system newydd, a ph'un a fyddai dull 'Archwilwyr Rheoleiddio Ardystiedig' yn gallu gweithredu yn effeithiol o dan yr amgylchiadau penodol hynny.

Clywodd y Bwrdd hefyd am y cynnydd sydd wedi'i gyflawni o ran cynhyrchu tystiolaeth, pontio'r sectorau cynhyrchu anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd ac ymgysylltu rhyngwladol ar **ymwrthedd gwrthficrobaidd**. Croesawodd y Bwrdd y gwaith ymgysylltu cenedlaethol a rhyngwladol sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd ar y cyd, ac roedd yn cefnogi gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Trafododd y Bwrdd y cynnydd o ran ailddylunio'r dull cadw gwyliadwriaeth, a chytuno bod adolygu'r ddarpariaeth labordy ar gyfer rheolaethau swyddogol bellach yn flaenoriaeth. Mae'n effeithio ar ddiwygiadau rheoleiddio, ein cynlluniau ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a'n cyfeiriad ar gadw gwyliadwriaeth

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar waith Tîm Gwyddor Gymdeithasol yr ASB a'r gwaith o sefydlu Pwyllgor Cynghori ar Wyddor Gymdeithasol. Pwysleisiodd y Bwrdd y dylid adlewyrchu gwyddor gymdeithasol a thystiolaeth, gan gynnwys o ran ymddygiad defnyddwyr a busnesau ym mhob rhan o'r gadwyn fwyd, ym mhob elfen o waith yr adran.

Mae'r papurau a drafodwyd ar gael [ar ein gwefan](#) (Saesneg yn unig) a bydd recordiad fideo o'r

cyfarfod ar gael ar wefan yr ASB ddydd Gwener 8 Rhagfyr.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr ASB ar 14 Mawrth 2018 yn Llundain.

Gallwch [gofrestru i fod yn bresennol neu gymryd rhan ar-lein](#). Mae'n bosibl y bydd lleoedd yn gyfyngedig, felly cofiwch ddisgwyl am gadarnhâd cofrestru swyddogol cyn gwneud unrhyw drefniadau. Os hoffech unrhyw gymorth wrth gofrestru, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, gallwch ffonio 020 8481 3302.